**WHC (2022) 021**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2022**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl:** Y Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol ar gyfer Canser (diweddariad 2022)

**Dyddiad Dod i Ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Angen gweithredu erbyn:**
30 Medi 2022

**Anfonwr:** Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**

Tîm Llwybrau a Chyflyrau Clinigol
populationhealthcare@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Dim

**Cyflwyniad**

Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn disodli WHC (2019) 034.

Mae Datganiad Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Canser yn disgrifio sut y dylai gwasanaethau canser da edrych yng Nghymru. Un o nodweddion pwysicaf y datganiad yw cyflwyno'r Llwybr sengl Lle'r Amheuir Canser yn ogystal â'r Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol sy'n sail iddo ar gyfer gwahanol fathau o ganser.

Y datganiad ansawdd ar gyfer canser [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfeiriad a bennwyd yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Disgrifiwyd sut y byddai Gweithrediaeth y GIG yn dod ag arbenigwyr clinigol, rheolwyr a chleifion ynghyd o fewn rhwydweithiau clinigol cenedlaethol er mwyn nodi llwybrau gofal a gytunir arnynt yn genedlaethol.

Fframwaith clinigol cenedlaethol: system ddysgu iechyd a gofal | LLYW.CYMRU

**Beth yw Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol?**

Mae'r llwybrau cenedlaethol hyn yn nodi beth ddylai ddigwydd i unrhyw glaf yng Nghymru sydd â math penodol o ganser yn ôl canllawiau a safonau proffesiynol. Pan fo diffyg canllawiau a safonau, mae consensws clinigol wedi'i ddatblygu drwy'r Grwpiau Safle Canser perthnasol sy'n rhan o Rwydwaith Canser Cymru.

Nid yw'r llwybrau yn nodi pwy, nac ymhle, na sut y cyflawnir y llwybrau hyn. Mae'r rhain yn faterion i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau benderfynu arnynt yn unol â'u capasiti o ran cynllunio, capasiti daearyddol a chapasiti'r gweithlu. Mae'r dull hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cysondeb ar gyfer cleifion a'r gwaith cyflawni gweithredol a bennir yn lleol.

Mae'r llwybrau delfrydol cenedlaethol hefyd yn llwybrau gofal wedi'u hamseru sy'n disgrifio sut y gall sefydliadau gyflawni targed Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer y Llwybr Lle'r Amheuir Canser. Y targed yw y dylai 75% o'r bobl sydd ar y Llwybr Lle'r Amheuir Canser ddechrau ar eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 o ddiwrnodau o'u pwynt amheuaeth. Bydd cyflawni'r llwybrau delfrydol ar gyfer cleifion felly yn fodd o gefnogi cyrff y GIG i gyflawni targed amseroedd aros y Llwybr Lle'r Amheuir Canser.

**Y Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol**

Hyd yma, mae 21 o lwybrau cenedlaethol wedi'u datblygu gan Rwydwaith Canser Cymru drwy'r Grwpiau Safle Canser gyda chynrychiolaeth gan holl gyrff y GIG sy'n ymwneud â'r llwybrau hynny. O ganlyniad, mae'r llwybrau wedi'u hamserlenni i'w cymeradwyo yng nghyfarfod blynyddol prif weithredwyr y GIG. Mae'r llwybrau a ganlyn sy'n cwmpasu oddeutu 80% o fathau o ganser ar gael:

[Y Llwybr Canser Sengl - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru]

- Canser y fron
- Canserau plant [NEWYDD]
- Canser y colon a'r rhefr
- Canser Gynaecolegol – Ceg y groth [NEWYDD]
- Canser Gynaecolegol – Endometriaidd [NEWYDD]
- Canser Gynaecolegol – Ofari [NEWYDD]
- Canser Gynaecolegol – Fwlfa [NEWYDD]
- Canser y Pen a'r Gwddf - Mwcws
- Canser y Pen a'r Gwddf – Lwmp yn y gwddf
- Canser yr Ysgyfaint
- Canser Niwroendocrin [NEWYDD]
- Canserau Pobl Ifanc yn eu harddegau ac Oedolion Ifanc [NEWYDD]
- Canser Gastroberfeddol Uchaf – Gastrig
- Canser Gastroberfeddol Uchaf – Oesoffagaidd
- Canser Gastroberfeddol Uchaf – Pancreas [NEWYDD]
- Canser Wrolegol – Pledren [NEWYDD]
- Canser Wrolegol – Pidyn [NEWYDD]
- Canser Wrolegol – Prostad [NEWYDD]
- Canser Wrolegol – Arennol [NEWYDD]
- Canser Wrolegol – Ceilliol [NEWYDD]

Yn ogystal â hynny, mae Rhwydwaith Canser Cymru wedi datblygu Llwybr Symptomau Amhendant. Mae'r llwybr hwn yn adlewyrchu'r gwaith o gyflwyno Clinigau Diagnosis Cyflym ar gyfer symptomau amhendant ledled Cymru gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio llwybrau symptomau amhendant. Rydym wedi cael gwybod gan Fwrdd Rhwydwaith Canser Cymru a'r Grŵp Prif Weithredwyr bod byrddau iechyd eisoes wedi ymrwymo i gefnogi'r Rhaglen Clinigau Diagnosis Cyflym Cenedlaethol a bod y broses werthuso wedi bod yn gadarnhaol iawn. Rydym felly yn cefnogi hyn yn ddull newydd ac arloesol o sicrhau bod cleifion sydd â symptomau difrifol ond amhenodol yn gallu cael profion diagnostig yn amserol yn unol ag arferion gorau sydd wedi'u profi.

- Llwybr Symptomau Amhendant (VSP) [NEWYDD]

**Adolygu a diweddaru**

Bydd Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Rhwydwaith Canser Cymru. Gellir anfon ymholiadau ynghylch y llwybrau at:

WCN.WalesCancerNetwork@wales.nhs.uk

**Y camau nesaf ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau**

Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser yn ei gwneud yn ofynnol bod y llwybrau delfrydol cenedlaethol wedi'u hymgorffori'n llawn yn y gwaith o gyflawni gwasanaethau lleol. Eu nod yw lleihau amrywiadau direswm yn y ddarpariaeth gofal ledled Cymru yn ogystal â helpu sefydliadau i gynllunio i gyrraedd targed amseroedd aros y Llwybr Lle'r Amheuir Canser.

- Bwrdd Gweithredol yn nodi a thrafod y llwybrau yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r Llwybr Lle'r Amheuir Canser.
- Arweinwyr Gweithredol ar gyfer canser yn defnyddio'r llwybrau i gefnogi'r gwaith o gynllunio, cyflawni a monitro perfformiad gwasanaethau canser.
- Cyfarwyddwyr Cynllunio yn ymgorffori'r llwybrau i'w rhagdybiaethau cynllunio.
- Timau amlddisgyblaethol safle-benodol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i fabwysiadu'r llwybrau neu gyfiawnhau rhesymau am amrywiadau.